*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 143A(5)(h) ac (i) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2025 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Tynnu'n Ôl Ryddhad Elusennol i Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") o ran Cymru i dynnu rhyddhad elusennol ardrethu annomestig yn ôl o ysgolion annibynnol sydd â statws elusennol, gan eu gwneud yn gyson ag ysgolion annibynnol nad ydynt â statws elusennol.

Mae adran 43 o Ddeddf 1988 (hereditamentau a feddiennir: atebolrwydd a rhyddhadau) yn pennu'r amodau y mae rhaid eu bodloni er mwyn i drethdalwr sy'n meddiannu hereditament fod yn atebol am ardreth annomestig. Gosodir atebolrwydd y trethdalwr ar gyfer blwyddyn ariannol y codir swm ynglŷn â hi drwy gyfrifo'r swm a godir ar gyfer pob diwrnod y codir swm ynglŷn ag ef o dan Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988 (hereditamentau a feddiennir: swm a godir).

Mae Adran 45 o Ddeddf 1988 (hereditamentau heb eu meddiannu: atebolrwydd a rhyddhadau) yn pennu'r amodau y mae rhaid eu bodloni er mwyn i drethdalwr sy'n berchen ar hereditament heb ei feddiannu fod yn atebol am ardreth annomestig. Gosodir atebolrwydd y trethdalwr ar gyfer blwyddyn ariannol y codir swm ynglŷn â hi drwy gyfrifo'r swm a godir ar gyfer pob diwrnod y codir swm ynglŷn ag ef o dan Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 (hereditamentau heb eu meddiannu: swm a godir).

Mae paragraff 2(2) o Atodlen 4ZA a pharagraff 2(2) o Atodlen 4ZB yn y drefn honno yn nodi'r rhyddhad mandadol sydd i'w gymhwyso i daliadau ardrethi annomestig ar gyfer hereditamentau a feddiennir a hereditamentau heb eu meddiannu pan fo, ar y diwrnod o dan sylw, y trethdalwr yn elusen neu'n ymddiriedolwyr i elusen, a phan fo'r amodau cymhwystra eraill wedi eu bodloni.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso paragraff 2 o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988 ar gyfer hereditamentau a feddiennir yng Nghymru pan fo'r hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cynnal busnes fel ysgol annibynnol. Mae rheoliad 4 yn datgymhwyso paragraff 2 o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 ar gyfer hereditamentau heb eu meddiannu yng Nghymru pan fo'n ymddangos, pan gaiff yr hereditament ei ddefnyddio nesaf, y caiff ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cynnal busnes fel ysgol annibynnol.

Bydd ysgolion annibynnol sydd â statws elusennol y mae a wnelont yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu addysg amser llawn i bobl y cynhelir cynllun datblygu unigol ar eu cyfer yn parhau i fod yn gymwys am ryddhad.

Mae rheoliadau 3 a 4 hefyd yn pennu bod ystyr "independent school" ("ysgol annibynnol") a nodir yn adran 463 o Ddeddf Addysg 1996 yn gymwys i baragraff 2 o Atodlen 4ZA a pharagraff 2 o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988, a bod i "individual development plan" ("cynllun datblygu unigol") yr ystyr a roddir gan adran 10 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 143A(5)(h) ac (i) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  
C Y M R U  D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Tynnu'n Ôl Ryddhad Elusennol i Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 8C o Atodlen 4ZA i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraff 2C o Atodlen 4ZB iddi.

Yn unol ag adran 143A(5)(h) ac (i)(**2**) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 1988 p. 41. Mewnosodwyd Atodlen 4ZA yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 1(3) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 (p. 53) a mewnosodwyd Atodlen 4ZB yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 2(4) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023. Mewnosodwyd paragraff 8C yn Atodlen 4ZA gan adran 5(2)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6) a mewnosodwyd paragraff 2C yn Atodlen 4ZB gan adran 5(3)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

(**2**) Mewnosodwyd adran 143A(5)(h) ac (i) yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 14 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Tynnu'n Ôl Ryddhad Elusennol i Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2025.

**Diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.**

**2.** Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 wedi ei diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**Diwygio Atodlen 4ZA (hereditamentau a feddiennir: swm a godir)**

**3.** Yn Atodlen 4ZA (hereditamentau a feddiennir: swm a godir), ar ôl paragraff 2 (rhyddhad ardrethi elusennol)(**1**), mewnosoder—

> "2A(1) Paragraph 2 does not apply where the hereditament is situated in Wales and, on the day concerned, the hereditament is wholly or mainly used for the purposes of carrying on business as an independent school that is not an independent school within sub-paragraph (2).
>
> (2) An independent school is within this sub-paragraph if it is wholly or mainly concerned with providing full-time education to persons for whom an individual development plan is maintained.
>
> (3) In this paragraph—
>
> (a) "independent school" has the meaning given by section 463 of the Education Act 1996(**2**), and
>
> (b) "individual development plan" has the meaning given by section 10 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018."

**Diwygio Atodlen 4ZB (hereditamentau heb eu meddiannu: swm a godir)**

**4.** Yn Atodlen 4ZB (hereditamentau heb eu meddiannu: swm a godir), ym mharagraff 2 (rhyddhad

(**1**) Mae paragraff 2 o Atodlen 4ZA wedi ei ddiwygio gan adran 11(2)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 gydag effaith o 1 Ebrill 2025 (gweler adran 23(3)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

(**2**) 1996 p. 56. Amnewidiwyd adran 463 gan adran 172 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158; paragraff 43 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6); O.S. 2016/413 (Cy. 131); a pharagraff 4(20) o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2).

ardrethi elusennol)(**1**), ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—

“(7A) Sub-paragraph (3) does not apply where, on the day concerned, it appears that when next in use the hereditament will be wholly or mainly used for the purposes of carrying on business as an independent school that is not an independent school within sub-paragraph (7B).

(7B) An independent school is within this sub-paragraph if it is wholly or mainly concerned with providing full-time education to persons for whom an individual development plan is maintained.

(7C) In sub-paragraphs (7A) and (7B)—

(a) “independent school” has the meaning given by section 463 of the Education Act 1996, and

(b) “individual development plan” has the meaning given by section 10 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018.”

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) Mewnosodir paragraff 2(3) i (8) yn Atodlen 4ZB gan adran 6(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 gydag effaith o 1 Ebrill 2025 (gweler adran 23(3)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024).